


Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

Bwletin Newyddion Llais Cleifion



Meysydd o ddiddordeb arbennig:

- **“Gwasanaethau sy'n addas i'r Dyfodol”**
- **Digwyddiadau**
- **Ymweliadau**
- **Ymgysylltu**

"Gwasanaethau sy'n addas i'r Dyfodol"

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad yn ddiweddar, *Gwasanaethau sy'n addas i'r Dyfodol*, a oedd yn gofyn am sylwadau'r cyhoedd ynglŷn â'r cynnig i ddiddymu Cyngorau Iechyd Cymuned. Mae'r ymgynghoriad yn argymhell y dylai'r sefydliad newydd fod yn seiliedig ar y model a welir yn yr Alban, er bod Llywodraeth yr Alban eisoes wedi nodi nad yw'n addas at y diben. Rydym hefyd yn pryderu nad yw'r cynnig hwn yn rhoi llais effeithiol ac annibynnol i gleifion. Bydd Swyddogion ac Aelodau Cyngorau Iechyd Cymuned ac Aelodau yn cysylltu â'u rhwydweithiau lleol i drafod y Papur Gwyn yn ogystal ag annog pawb i ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae'r ymgynghoriad yn para am 12 wythnos ac yn cau ar 29 Medi 2017. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, ffoniwch y swyddfa ar 01633 838516.



Digwyddiadau



John Pearce a rhai o wirfoddolwyr Gwent

Ar 28 Mehefin aeth ein Cadeirydd, John Pearce ynghyd â'r Prif Swyddog, Angela Mutlow, i ddigwyddiad te prynhawn a drefnwyd gan y Bwrdd Iechyd er mwyn diolch i wirfoddolwyr Gwent am eu holl waith caled.

Fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth o Dementia, aeth Liz Warren, Dirprwy Brif Swyddog, i Gynhadledd Dementia Ranbarthol ar 18 Mai ym Mhont-y-pŵl. Cafwyd un cyflwyniad ar y fenter "Addurno fy Ffrâm", sef menter ar y cyd rhwng Cartref Nyrsio, Coleg Gwent ac ysgol gynradd leol i addurno fframiau-zimmer i annog cleifion sydd â dementia i'w gweld ac i'w defnyddio er mwyn lleihau'r nifer o achosion o gwmpo.

Ymweliadau

Ym mis Ebrill cynhaliodd Aelodau ymweliadau yn ystod y dydd a'r nos ag Uned Asesu Meddygol (UAM) ac Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Brenhinol Gwent. Cododd dau fater yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn ystod yr ymweliad gyda'r nos yn ymwneud â dillad gwely a diffyg gwybodaeth i gleifion ynglŷn â'r amseroedd aros. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ailadrodd y polisi ynglŷn â dillad gwely gyda staff a bydd y system uwch-seinydd yn cael ei defnyddio'n amlach er mwyn rhoi gwybodaeth i gleifion ynglŷn â'r amser y gallant ddisgwyl ei aros. Yn yr UAM, mae system newydd sy'n rheoli llif cleifion yn cael ei rhoi ar waith er mwyn ceisio lleihau aflonyddwch oherwydd sŵn.

Ymwelodd Aelodau ag Ysbyty'r Sir ym mis Mai. Roedd boddhad cleifion yn uchel iawn yn Ward Phoenix gyda chanmoliaeth uchel i'r staff. Roedd storio yn broblem ac mae ystafell wedi'i dynodi er mwyn sicrhau bod system storio well ar y ward.

Yn ystod yr un mis, cynhaliwyd ymweliad â ward D2 Gorllewin yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Cafodd nifer o faterion eu nodi ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb iddynt yn rhagweithiol gyda chynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'n holl bryderon.

O fis Ebrill, byddwn yn cynnal ymweliadau dilynol er mwyn edrych ar y meysydd sy'n peri pryder. Caiff yr ymweliadau hyn eu cynnal yn ystod y mis yn dilyn dyddiad cwblhau'r cynllun gweithredu gan ganolbwyntio'n benodol ar yr argymhellion y gwnaethom eu darparu.

Ymgysylltu

Cynhaliodd Aelodau a staff y Cyngor Iechyd Cymuned ddigwyddiad ymgysylltu llwyddiannus iawn ym Marchnad Pont-y-pŵl ym mis Mai gyda nifer o aelodau o'r cyhoedd. Byddwn yn dychwelyd i'r Farchnad ym mis Awst.

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
6-8 William Brown Close
Tŷ Raglan
Parc Busnes Llantarnam
Cwmbrân
NP44 3AB
Ffôn: 01633 838516

E-bost: enquiries.aneurinbevanhc@waleschc.org.uk

Fformatau hygyrch

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni. Mae ein cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu o'n gwefan.

www.patienthelp.wales.nhs.uk/aneurinbevan